CYHOEDDIAD

# Rhaglen o fuddsoddi ffyrdd i'r dyfodol

Crynodeb o'r cynlluniau at y dyfodol fel y nodir yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r argymhellion a wnaed gan y Panel Adolygu Ffyrdd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Chwefror 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 14 Chwefror 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Prosiectau sy'n mynd rhagddyn nhw – Rhaglen Newid Dulliau Teithio ar Gefnffyrdd**

**Rhaglenni aml-ddull newydd ar lefel coridor**

**Nid yw'r prosiect yn mynd rhagddo ar unrhyw ffurf ar yr adeg hon**

**Cynlluniau datblygu economaidd**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Categori | Beth sy'n digwydd nesaf | Nifer o gynlluniau |
|---|---|---|
| Yn mynd rhagddyn nhw | Wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth. Byddwn yn bwrw ymlaen gan ystyried argymhellion y Panel Adolygu Ffyrdd ac yn unol â’r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol. Bydd rhai cynlluniau'n cael eu hadolygu | 15 |
| Yn cael eu disodli gan brosiect newydd | Bydd prosiectau newydd o dan y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth yn cael eu cynnal i fynd i'r afael â phroblemau a chyfleoedd ar y Fenai ac yn Wrecsam | 2 |
| Rhaglenni newydd, gwell yn cael eu cynnal yn eu lle | Rhaglenni aml-ddull newydd ar lefel coridor yn cael eu cynnal ar yr M4, yr A55 / A494 | 15 |
| Ddim yn mynd rhagddyn nhw ar hyn o bryd | Mae'n bosibl y bydd cynlluniau diwygiedig yn cael eu hystyried yn rowndiau cyllid y dyfodol, yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol | 9 |
| Cynlluniau awdurdodau lleol | Bydd y rhain yn cael eu hasesu yn rowndiau grant y dyfodol, yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol | 15 |
| Cynlluniau datblygu economaidd | Rydyn ni wedi gofyn i'r Cynghorydd Anthony Hunt a'r Cynghorydd Llinos Medi arwain grŵp i ddatblygu arweiniad ar gyflawni datblygu economaidd yn seiliedig ar leoedd, wedi'i alluogi gan atebion trafnidiaeth sy'n ategu twf economi | 3 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| Categori | Beth sy'n digwydd nesaf | Nifer o gynlluniau |
|---|---|---|
| | ffyniannus, werdd a chyfartal ac sy'n cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol | |
| Cyfanswm | Cafodd 55 cynllun eu nodi yn adroddiad cychwynnol y Panel Adolygu Ffyrdd + pedwar a gafodd eu nodi wedyn. O'r 59 cynllun, cafodd wyth eu hepgor am nad oedden nhw o fewn y cwmpas neu nad oedd digon o wybodaeth; cafodd dau eu hadolygu yn gynnar; roedd tri yn gynlluniau datblygu economaidd; ac mae argymhellion y Panel ar 45 cynllun yn cael eu hamlinellu yn Atodiad 1 i adroddiad terfynol y Panel Adolygu Ffyrdd | 59 |

# Prosiectau sy'n mynd rhagddyn nhw – Rhaglen Newid Dulliau Teithio ar Gefnffyrdd

## Yr A487 Abergwaun i Aberteifi

Cynllun yn eu camau cynnar nas adolygwyd gan y panel. Bydd yn parhau gyda phroses WelTAG yn cael ei halinio i'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yr A4076 Hwlffordd

## Yr A4042 y Coridor Deheuol o Bont-y-pŵl i'r M4

## Prosiect newydd o dan y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth: Gwelliannau aml-ddull i goridor yr A483 yn Wrecsam a chysylltiadau â chanol y ddinas

Gweithio gyda Chyngor Wrecsam i ddatblygu gwelliannau aml-ddull. Bydd y rhain yn cynnwys dichonoldeb / ymchwil i greu datblygiad preswyl a chyflogaeth aml-ddull o'r radd flaenaf, gyda llai o geir yn cael eu defnyddio, wedi'i alinio â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol. Cynhelir y prosiect hwn yn lle Ffordd Osgoi Wrecsam ar yr A483 J3-6.

## Prosiect newydd o dan y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth: Cynlluniau diwygiedig ar gyfer Coridor y Fenai

Datblygu opsiynau cadarn i sicrhau y gellir croesi'r Fenai mewn ffordd sy'n ategu newid dulliau teithio, yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol. Rydyn ni wedi gofyn i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru wneud argymhellion ynghylch y ffordd orau o wneud hyn. Mae'r prosiect hwn yn lle'r Drydedd Bont dros y Fenai.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Prosiectau sy'n mynd rhagddyn nhw – Y Rhaglen Diogelwch a Chydnerthedd Cefnffyrdd

### Yr A494 Lon Fawr Rhuthun/Ffordd Corwen

Newidiadau ar raddfa fach i wella diogelwch ar y gyffordd yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol

### Yr A494 Cyffordd Maes Gamedd

Ystyried opsiynau amgen ar raddfa fach i wella diogelwch, yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol

### Yr A48 Cross Hands i Bensarn

### Yr A48 Gwelliannau i Gyffordd Nantycaws

Ystyried newidiadau ar raddfa fach i wella diogelwch, yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol. Ni fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer cyffordd aml-lefel.

### Yr A44 Llangurig i Aberystwyth

Parhau i ddatblygu cynlluniau diogelwch a chydnerthedd yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol

- Yr A487 Dorglwyd Comins Coch

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Yr A40 Fferm Millbrook, Aberhonddu
- Yr A470 Caersws
- Yr A487 Rhiwstaerdywyll
- Yr A487 Llwyn Mafon
- Yr A40 Coridor Caerfyrddin i Sanclêr
- Yr A40 Coridor Caerfyrddin i Landeilo

# Rhaglenni aml-ddull newydd ar lefel coridor

## Yr A55, yr A494 a llwybrau eraill y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol

Yn unol ag unrhyw argymhellion perthnasol gan Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru ac yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol

## A494 Aston Hill

Byddwn yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol i ddatblygu opsiynau i wella ansawdd aer ac i ategu newid dulliau teithio a chydnerthedd, yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol

## Yr M4 – astudiaethau trafnidiaeth i ategu newid dulliau teithio

Yn unol â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol

# Mae'r rhaglenni aml-ddull hyn ar lefel coridor yn cymryd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## lle'r cynlluniau a'r astudiaethau canlynol:

- Yr A55 – Adolygiad o groesfan ar yr un lefel*
- Yr A55 – Cyfyngiadau ar gerbydau arall yn pasio*
- Yr A55 / A494 – Astudiaeth o Gydnerthedd y Rhwydwaith
- Yr A55 Cyffyrdd 15 a 16
- Yr A55 Cyffyrdd 23 i 24 – Astudiaeth o'r Coridor
- Yr A55 Cyffyrdd 24 i 29 – Astudiaeth o'r Coridor
- Yr A55 Cyffyrdd 29 i 33b
- Yr A55 Cyffyrdd 32 i 33
- Yr A55 Cyffyrdd 30 i 32a– Astudiaeth o'r Coridor*
- Gwella Coridor Sir y Fflint
- Yr A55 Cyffyrdd 33b Ewloe i A494 Cyfnewidfa Queensferry
- Yr M4 Cyffyrdd 32 i 35 a'r A470 Coryton i Ferthyr
- Yr M4 C35 i 38 Pen-y-bont ar Ogwr
- Yr M4 C38 i 43 Port Talbot
- Yr M4 J43 i 47 Abertawe

*Astudiaethau yn eu camau cynnar nas adolygwyd gan y Panel Adolygu Ffyrdd

# Nid yw'r prosiect yn mynd rhagddo ar unrhyw ffurf ar yr adeg hon

- Yr A470 Alltmawr (Fferm Chapel House)
- Yr A5/ A483 Cylchfan Halton
- Coridor Twf Caer-Brychdyn (Gogledd Cymru)
- Cynlluniau Diogelwch Canolbarth Cymru yr A470 Llangurig, yr A470 Llanidloes, yr A470 Pont y Bat (Felinfach), yr A487 Llanrhystyd, yr A487 Machynlleth, yr A487 i'r Gogledd o Aberarth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cynlluniau Awdurdodau Lleol

Bydd datblygu cynlluniau awdurdodau lleol yn cael eu hystyried yn rowndiau cyllido grantiau trafnidiaeth yn y dyfodol, yn ddarostyngedig i fodloni'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol a'n hymrwymiadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Gwnaeth adroddiad terfynol y Panel Adolygu Ffyrdd argymhellion ynghylch y cynlluniau canlynol:

- Coridor Trafnidiaeth Dwyreiniol Caerdydd
- Gwelliannau i Gerbytffordd Cymer
- Addasu Ffordd yr Arfordir a Gwyro'r A487 yn Niwgwl
- Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Cyswllt Ddinesig y Gogledd, Abertawe
- Porth Gogleddol Cwm Cynon
- Ffordd Osgoi Llanharan 2021 – 2026
- Mynediad i Gyffyrdd Twnnel Hafren
- Metro'r Gogledd – Gwella Tagfeydd yng Nghanol Tref Abergele
- Metro'r Gogledd – Gwella Tagfeydd yn Llandudno Cam 4
- Yr A469 Troedrhiwfuwch
- Ffordd Aber-big, Blaenau Gwent

## Ni chafodd y cynlluniau canlynol eu hadolygu gan y Panel:

- Gwelliannau i Rwydwaith Ardal Drefol Llanelli a'r Llain Arfordirol (C48)
- Coridorau Trafnidiaeth Gyhoeddus Strategol Sir Gaerfyrddin
- A4119 Ffordd Ddeuol Coed Elái

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

### Yn flaenorol gwnaeth Cadeirydd y Panel Adolygu Ffyrdd argymhellion ynghylch y cynllun canlynol a gafodd eu derbyn gan Lywodraeth Cymru:

- Ffordd Osgoi a Ffordd Fynediad Llanbedr

## Cynlluniau datblygu economaidd

- Cafodd sampl fach o dri chynllun datblygu tir (Parc Busnes Celtaidd, Abergwaun; Llanfrechfa, Cwmbran; Warren Hall, Sir y Fflint) eu hadolygu am fod Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig drwy gyllid neu fod yn berchen ar y tir.
- Ni wnaeth y Panel unrhyw argymhellion ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn neu beidio. Yn hytrach, defnyddiwyd y sampl i lywio cyngor y Panel ar fuddsoddi yn y ffyrdd yn y dyfodol.
- Er mwyn helpu i roi'r rhain a chynlluniau datblygu economaidd eraill ar waith, rydyn ni wedi gofyn i'r Cynghorydd Anthony Hunt a'r Cynghorydd Llinos arwain grŵp i ddatblygu arweiniad ar gyflawni datblygiadau'n seiliedig ar leoedd, wedi'u galluogi gan atebion trafnidiaeth sy'n cefnogi twf economi ffyniannus, werdd a chyfartal ac sy'n cyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer adeiladu ffyrdd yn y dyfodol a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/rhaglen-o-fuddsoddi-ffyrdd-ir-dyfodol-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.